



# Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,  
nos Fawrth, 15 Tachwedd 2016 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room  
on Tuesday, 15 November 2016 at 6.00pm.

**Presennol/Present**—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (*yn y gadair/in the chair*),  
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche.

**Ymddiheuriadau/Apologies**—Y Cyng./Cllr Akira Shimazaki

## **Cyflwyniad / Presentation:**

**Mr Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion**  
Community Access Officer, Ceredigion County Council

**Cynllun Mabwysiadu Llwybrau Cyhoeddus / Adopt a Path Scheme.**

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, Mr Osian Jones i'r cyfarfod, a gwahoddwyd ef i roi ei gyflwyniad. Dosbarthwyd ganddo ddogfennau yn cynnwys mapiau o lwybrau cyhoeddus yr ardal a hefyd "Llyfryn Cynllun Mabwysiadu Llwybr ar gyfer Gwirfoddolwyr" a gyhoeddir gan Adran Arfordir a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion. Bwriad y cynllun yw creu diddordeb ymysg preswylwyr a defnyddwyr y llwybrau cyhoeddus gan greu grŵp o wirfoddolwyr i warchod a chynnal a chadw'r hawl tramwy arnynt. Awgrymwyd cysylltu â grwpiau lleol "Stepiau at Iechyd" a "Chymdeithas Ramblers" gan gyfleu'r holl wybodaeth. Cytunodd Mr Jones anfon copïau electroneg o'r llyfryn a mapiau ymlaen er mwyn eu dosbarthu i'r aelodau.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed Mr Osian Jones to the meeting and invited him to give his presentation. Mr Jones duly distributed maps of the local pathways relevant to the town of Cardigan and also an "Adopt a Path Scheme Volunteer Handbook" published by Ceredigion County Council Coast & Countryside Section. The objective is to create interest amongst local residents and pathway users to join the voluntary scheme to protect and maintain the existing rights of way. It was recommended to contact local groups "Steps to Health" and the "Ramblers Association" and convey to them the necessary information. Mr Jones agreed to forward electronic copies of the handbook and maps which will be distributed to all members.

## **Cynllunio / Planning**

**(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion.**

Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A161021	Tŷ'r Iet, Caemorgan Road	Extension and associated works	<i>Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A161052	Land at Bath House Farm	Engineering operations and remedial works to stabilise the existing plateau	<i>Cytunwyd bod y Cyng. Dai Brabrook yn dychwelyd ag adroddiad erbyn cyfarfod llawn y Cyngor ar 6 Rhagfyr.</i> It was agreed that Cllr Dai Brabrook would report back with observations to the next full council meeting on 6 December.

### **Datgan diddordeb / Declaration of interest:**

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis (A161021, A161052)

Y Cyng. / Cllr Jane Roche (A150178)

**Ymateb oddi wrth Swyddog Rheoli Datblygu (Y De) ynglŷn â sylwadau Cyngor Tref Aberteifi i gais A161002 (Swyddfa Bost Aberteifi):**

Response of the Development Management Officer (South) to Cardigan Town Council's observations regarding application A161002 (Cardigan Post Office): *"The application under consideration is for no more than 'Alteration to front elevation ground floor window to lower the cill level'. We have not received a Change of Use application and therefore I cannot consider your request."*

**Cais / Application A150178** (variation of condition 1 of planning permission A030898 – to extend time for commencement of development): Land at Quay Street and Market Lane:

Mae'r cais uchod eisoes wedi ei basio ond mae'r adran yn gofyn am ganiatâd dirprwyedig oddi wrth y Cyng. Catrin Miles, fel aelod lleol, i roi 18 mis ychwanegol i'r ymgeisydd, oblegid yr holl ofyniadau ychwanegol sydd wedi codi. Wedi trafod y mater gyda'i chyd-gynghorwyr, cytunodd y Cyng Miles roi caniatâd am 18 mis ychwanegol.

**Due to the ongoing site difficulties and the time remaining on the original approval, the applicants are requesting an additional 18 months to commence the development. Cllr Catrin Miles, having delegated powers as the local member, and following a short discussion with councillors, is prepared to agree to a further 18 months.**

## ***Goleuadau Nadolig / Christmas Lights***

**Diweddariad / Update**

**Coeden Nadolig: Bydd y goeden Nadolig yn cyrraedd Neuadd y Dref am 9.00yb dydd Sul, 27 Tachwedd.**

Christmas tree: The tree will be delivered to the Guildhall at 9.00am on Sunday, 27 November.

**Rhoddodd y Cyng. Brabrook adroddiad o'i gyfarfod gyda Mr Tim Lewis; newidiwyd nifer o stripiau o'r goleuadau yn Stryd y Priordy a rhannau o Pendre a hefyd o Neuadd y Dref hyd siop cigyddion Dewi James a'i Fab yn y Stryd Fawr ar 11 Tachwedd. Mae gwaith eto i'w wneud. Bydd Mr Lewis yn dychwelyd i addurno'r goeden Nadolig cyn y 3ydd o Ragfyr. Mae'r clerc wedi gofyn eto i gwmni Commercial Christmas anfon tystysgrif trydan ymlaen i'r Cyngor.**

Cllr Brabrook gave a report on the recent work carried out by Mr Tim Lewis from Commercial Christmas on Friday, 11 November. The lighting from Guildhall Square to just beyond Dewi James & Son (Butchers) in the High Street was changed and new lights installed. The upper section of Priory Street was previously changed as far as Hair Peace, the rest of Priory Street and Pendre will be completed at a later date. Mr Lewis will contact the council to arrange this and stated that the company will return for a day to enable this work to be completed; he also stated that they would return between

27 November and 3 December to place lights on the Christmas tree once it is in place. The clerk has once again contacted Commercial Christmas and requested that the electrical certificate be forwarded.

## ***Gohebiaeth / Correspondence***

- (a) **Area 43 (Cardigan Youth Information and Support Services)**

**Cyfarfod Blynyddol / Annual General Meeting, 22/11/16 at 7.30pm in the Centre.**

**Cytunodd y Cyng. John Adams-Lewis fynychu'r cyfarfod.**

Cllr John Adams-Lewis agreed to attend the meeting.

- (b) **Cadarnhad oddi wrth Mr John Hadlow, swyddog Meysydd a Gerddi'r cyngor sir, y bydd y cyfarpar chwarae yn Netpwl yn cael eu symud ar 28 Tachwedd.**

Confirmation from Mr John Hadlow, Parks & Gardens officer of the county council, that the work to remove the play equipment at Netpool will commence on 28 November.

**Mae'r clerc wedi anfon yr wybodaeth ymlaen at y Bachan Deche.**

The clerk has forwarded the information to the Handyperson.

- (c) **Teifi Installations: Gwaith ar Gae Chwarae Pentop**  
 Work done at Pentop Play Area – £9,609.60 (VAT £1,601.60)  
**MD Recycling Ltd: Pridd a gwaredu gwastraff gwyrdd**  
 Top Soil and green waste/trash tipped at site – **£2,652.96 (VAT £442.16)**

**Funds available:**

NatWest Current A/c	£8,942.88	£12,262.56
Lloyds Bank Current A/c	£2,387.20	Less VAT £2,043.76
	£11,330.08	£10,218.80

**Balance of Pentop funds in hand** **£1,111.28**

**Awgrymwyd bod y biliau yn cael eu talu wedi eu cymeradwyo a'u derbyn gan gyfarfod llawn y cyngor ar 6 Rhagfyr.**

It was recommended that the bills be paid after acceptance and approval by the full council at the 6 December monthly meeting.

**Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field:**

- (a) **Diweddariad / Update:**  
**Prydles Clwb Bowls Aberteifi / Cardigan Bowling Club lease.**  
**Yn dilyn canllawiau gan gyfreithiwr y cyngor, Mr John Dyer, awgrymwyd bod copi o'r brydles ddiwygiedig yn cael ei anfon ymlaen at Morgan & Davies am gyngor pellach ynglŷn â phrisiant.**

Following the advice of the council's solicitor, Mr John Dyer, it was recommended that a copy of the amended lease be forwarded to Morgan & Davies with regard to the rent and the proposals with regard to the buildings at the end of the lease for advice and to make recommendations to the council so that it can give the required certification required in the lease that the council has complied with the Charities Act in relation to the new lease.

- (b) **Awgrym ynglŷn â gosod y pyst pêl-droed ar y cae pan na fyddant mewn iws (bydd angen hysbysu'r Pwyllgor Ymgynghorol).**  
 Recommendation of location to place football goalposts when not in use (Advisory committee to be informed).

**Awgrymwyd bod y pyst yn cael eu gadael ar wastad ar yr un safle a bod arwyneb cadarn yn cael ei osod. Yr awgrym i'w anfon ymlaen at Bwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Cytunodd y Cyng. Graham Evans gyfleu'r neges i Mr a Mrs M. Rees, 6 Park Avenue.**

It was recommended that the goal posts remain at the location with a hard-core surface applied. The recommendation to be forwarded to the Advisory Committee of King George 5<sup>th</sup> Playing Field. Cllr Graham Evans agreed to convey the information to Mr and Mrs M. Rees, 6 Park Avenue.

- (c) **Sarah and Robert Davies, 2 Briscwm Cottages, Cardigan:**  
**Cais i ddefnyddio'r man chwarae aml-bwrpas ar y cae chwarae i hyfforddi ci cynorthwyol sydd gan Mr Davies sydd yn gaeth i'w gadair olwyn.**  
 Application to use the multi-purpose play area on the playing field to train an assistance dog. Mr Davies is a wheelchair user.

**Awgrymwyd bod y cais yn cael ei ganiatáu mewn egwyddor gyda'r amodau fel a nodwyd gan yr ymgeisydd. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth oddi wrth Mr a Mrs Davies ynglŷn ag amserlen yr hyfforddiant. Yr awgrym i'w anfon ymlaen at Bwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.**

Recommendation: The application was agreed in principle with the conditions as stated by the applicant. The clerk was asked to request further information regarding the time-scale of the training sessions. The recommendation to be forwarded to the Advisory Committee of King George 5<sup>th</sup> Playing Field.

## ***Unrhyw Fater Arall / Any Other Business***

- (a) **Cwestiynau i'r Cyfarfod Ymgynghorol gyda swyddogion y Cyngor Sir, 23/11/16, 5.30yh, Ffestri'r Tabernacl.**

Consulation Meeting with officers of Ceredigion County Council, 23/11/16, 5.30pm, Tabernacl vestry.

*Yn bresennol / Attendees:* Y Cynghorwyr / Councillors, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Mark Cole.

- (i) Sut y mae'r Awdurdod yn gweld rôl Cyngorau Tref a Chymuned yn y blynyddoedd cythryblus sydd i ddod (o ran cyllid)? A oes syniad o newid neu ddatblygu'r rôl hon?  
How does the authority predict the role of town and community councils will develop in the future taking into account the austerity programme facing local government?
- (ii) Parcio am ddim / Free parking (pilot scheme by the Welsh Government).

- (b) **Cadarnhaodd y Cyng. Graham Evans ei fod ef a'r Bachan Deche wedi symud yr hysbyswrdd oddi ar y maes parcio tu ôl i Neuadd y Dref.**

Cllr Graham Evans confirmed that he and the Handyperson had removed the interpretation board from the Guildhall car park.

- (c) **Yn dilyn datganiad gan swyddog y cyngor sir yn awgrymu mai cyfrifoldeb Cyngor Tref Aberteifi oedd y bandstand, cadarnhawyd nad oedd hynny'n gywir, ac mai'r cyngor sir oedd yn gyfrifol am Erddi Victoria a'r bandstand.**

Following a statement by a county council official that Cardigan Town council has ownership of the bandstand, it was confirmed by councillors that this was not the case and that the county council owned the gardens and the bandstand.

- (d) **Dyweddodd y Cyng. Jane Roche bod cyfarfod atal llifogydd y dref i'w gynnal yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr nos Lun, 21 Tachwedd am 6.00 o'r gloch.**

Cllr Jane Roche stated that a flood alleviation meeting will be held at the Fisherman's Rest on Monday, 21 November at 6.00pm.

---

## ***Er gwybodaeth / For information***

**Rhagfyr 3—Cynnau'r goleuadau Nadolig gan y Maer o flaen Neuadd y Dref am 4.30yp.**

December 3—Switch-on of Christmas lights by the Mayor in front of the Guildhall at 4.30pm.

**10 Ionawr 2017—Cyfarfod Gosod y Praesept am y flwyddyn 2017-18, 6.00yh.**

10 January 2017—Meeting to Set the Precept for the 2017-18 financial year, at 6.00pm.